# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams – Cadeirydd<br>Y Cynghorydd G. O. Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, C. Ll. Everett, Jim Evans, K. Evans, D. R. Hughes, Ff. M. Hughes, Aled M Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, R. Ll. Jones, T. H. Jones, C. McGregor, Rhian Medi, Bryan Owen, J. V. Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, G. W. Roberts OBE, J. Arwel Roberts, P. S. Rogers, H. W. Thomas, E. Schofield, Ieuan Williams, J. P. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Uchel Gyfreithiwr (Gwasanaethau Plant)<br>Uwch Swyddog Cynllunio (EGJ)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd W. I. Hughes. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Mr. R. H. Gray Morris (Pwyllgor Safonau) (Eitem 4) |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd T. H. Jones

### 1 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel cofnod cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar :-

- **9 Rhagfyr 2010**

Materion yn codi –

**<u>Eitem 7 – Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd</u>**

Oherwydd nad oedd y Cynghorydd W. J. Chorlton bellach yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith, gofynnodd i'r Deilydd Portffolio Cynllunio ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r Cynghorwyr A. Morris Jones, B. Owen a G. W. Roberts OBE yng nghyswllt costau er mwyn sicrhau bod y cynnig yn un oedd yn gost effeithiol i'r Cyngor hwn.

- **8 Chwefror 2011 (Arbennig)**

Materion yn codi –

**<u>Eitem 13 – Cydbwysedd Gwleidyddol</u>**

Roedd y Cynghorydd B. Durkin ac E. Schofield yn dymuno iddo gael ei gofnodi eu bod yn anhapus gyda chynnwys llythyr yr oeddent wedi'i dderbyn gan Gadeirydd y Cyngor ynglŷn â dyrannu seddau i Aelodau Digyswllt ar Bwyllgorau ac y byddai'r ddau yn lleisio eu pryderon gyda'r Cadeirydd.

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Rhian Medi ddiddordeb yn eitem 11 o'r cofnodion hyn, ac fe arhosodd yn y cyfarfod ond ni chymerodd ran yn unrhyw un o'r trafodaethau na'r bleidlais ar y mater. Datganodd ddiddordeb hefyd yn y newid i'r gyllideb fel yr oedd yn cael ei roi gerbron y cyfarfod heddiw yng nghyswllt Ysgol y Bont, Llangefni, ac arhosodd yn y cyfarfod ond ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y mater.

Datganodd y Cynghorydd B. Owen ddiddordeb yn y newid i'r gyllideb fel yr oedd yn cael ei roi gerbron y cyfarfod heddiw yng nghyswllt Ysgol y Bont, Llangefni ac fe arhosodd yn y cyfarfod ond ni chymerodd ran mewn unrhyw drafodaeth na phleidlais ar y mater.

Datganodd y Cynghorydd T. Lloyd Hughes ddiddordeb yn Eitem 4 o'r cofnodion hyn, fe arhosodd yn y cyfarfod ond ni chymerodd ran mewn unrhyw drafodaeth na phleidlais ar y mater.

## 3 DERBYN CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH NEU BENNAETH Y GWASANAETH TÂL

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes yn ôl i'r Cynghorydd Fflur Hughes yn dilyn ei habsenoldeb oherwydd marwolaeth ei chwaer, Ffion Haf. Roedd y Cynghorydd Hughes a'i theulu wedi bod ym meddyliau pawb yr wythnosau diwethaf hyn ac roedd y Cyngor yn falch o'i gweld yn ôl.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at farwolaeth mam y Cynghorydd W. I. Hughes y bore hwn ac ar ran y Cyngor, fe estynnodd ei gydymdeimlad dwysaf i'r Cynghorydd Hughes a'i deulu yn eu profedigaeth.

Cymerodd y Cadeirydd gyfle hefyd i gydymdeimlo gydag unrhyw aelod neu aelod o staff oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Mr. Grant Howard, Gweithiwr Cefnogol, Tîm Plant yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar ennill medal 'Y Ddinas a'r Urddau' am arddangos talentau arbennig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cafodd ei enwebu gan Barbara Hughes-Jones a byddai'n mynychu noson wobrwyo 'Lion Awards' ar 26 Mai, 2011 yn The Roundhouse, Llundain. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r holl staff yn yr Adran hefyd yn dymuno estyn eu llongyfarchiadau i Grant.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i'r Cynghorydd J. V. Owen a Mrs Owen ar ddathlu 45 mlynedd o briodas yn ddiweddar.

## 9 CYNNIG I NEWID TREFN Y BUSNES

Cafwyd cynigiad gan yr Arweinydd i newid trefn y busnes ar y rhaglen a dod ag eitem 9(i) yn ei blaen:-

## 9.1 ADOLYGU'R RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO

Adroddwyd – bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 23 Chwefror 2011, yn dilyn ystyried yr uchod, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

*"Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i Adran 4.6 y Cyfansoddiad fel a nodir yn Nhabl 2.3 yr atodiad i'r adroddiad".*

**PENDERFYNWYD gohirio'r mater i'r cyfarfod Cyffredin nesaf o'r Cyngor am adroddiad pellach yn nodi a oes rheolau tebyg yn bodoli mewn Cynghorau eraill yng Nghymru a bod gweithdy anffurfiol yn cael ei gynnal gydag aelodau ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig cyn cyfarfod mis Mai.**

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd gan R. H. Gray Morris - Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau'r Cyngor Sir yn amlinellu gwaith y Pwyllgor yn 2010/11 ac yn cyflwyno ei Raglen Waith am 2011/12.

Adroddwyd - bod y blaenoriaethau arfaethedig a bennwyd yn y Rhaglen Waith wedi'u llunio i gefnogi'r Cyngor gyda darparu ei Raglen Adfer a gyda phwyslais cryf ar helpu gyda hunanreoleiddio trwy gael Cynllun Datblygu Aelodau effeithiol a darparu cyngor a chyfarwyddyd i Arweinyddion Grŵp/Cadeirydd y Cyngor gyda datrys materion disgyblaethol o fewn y Cyngor, lle bynnag y bo hynny'n briodol.

Hefyd, roedd teimlad ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor Safonau wrth iddo ddatblygu ei Raglen Waith, yn gwneud hynny gyda'r fantais o gael mewnbwn a chyngor gan y Cyngor er mwyn sicrhau bod y rhaglen gyffredinol hefyd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ddatblygiad aelodau ac at y materion fyddai fwyaf o gymorth i'r Cyngor Sir wrth iddo ymateb i'r Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol, sef mater yr oedd gan y Pwyllgor Safonau ddyletswydd briodol ynglŷn ag ef.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad;**
- **Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau am 2011/12.**

## 5 CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

## 6 STRATEGAETH GYLLIDEBOL AR GYFER Y TYMOR CANOL, Y GYLLIDEB, TRETH Y CYNGOR, RHEOLI TRYSORLYS A DANGOSYDDION PWYLLOG AR GYFER 2011/12

6.1 Cyflwynodd y Cynghorydd Tom Jones, Deilydd Portffolio Cyllid – gynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer strategaeth cyllideb refeniw tymor canol, cynllun cyfalaf interim a chyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2011/12.

Adroddwyd – bod cynigion cyllidebol terfynol y Pwyllgor Gwaith am 2011/12 i'w gweld fel a ganlyn:-

- Tabl A – Cyllideb Refeniw 2011/12
- Tabl B – Cynllun Cyfalaf a Chyllideb 2011/12
- Tabl C – Dangosyddion Pwyllog

Cafwyd y manylion canlynol yn adroddiad y Deilydd Portffolio mewn perthynas â dilyn gofynion Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb:-

- Os oedd y Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol, a oedd y gyllideb flynyddol arfaethedig yn cydymffurfio gyda'r strategaeth honno, a manylion am unrhyw eithriadau.
- Y Dreth Gyngor arfaethedig am y flwyddyn
- Unrhyw drosglwyddiadau arfaethedig i mewn neu allan o'r arian wrth gefn
- Crynodeb o'r gwariant arfaethedig yn ôl gwasanaeth
- Manylion am newidiadau arwyddocaol i'r ddarpariaeth o wasanaeth yn sgil y gyllideb
- Y graddau yr oedd y cynigion yn cymryd i ystyriaeth adroddiadau i Bwyllgorau
- Y graddau yr oedd y cynigion yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ymgynghori a gynhaliwyd
- Manylion am unrhyw wahaniaethau arwyddocaol eraill rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol.
- Cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer newid penawdau ariannol yn ystod y flwyddyn.
- Y cynigion ar gyfer benthyca
- Unrhyw faterion statudol eraill oedd i'w penderfynu gan y Cyngor llawn.

6.2 Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) ar y gyllideb.

Adroddwyd gan y Deilydd Portffolio Cyllid – Er mwyn gallu mabwysiadu ei gyllideb am y flwyddyn 2011/12 ac er mwyn penderfynu ar lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn, roedd angen i'r Cyngor Sir fabwysiadu penderfyniad ffurfiol oedd yn delio mewn peth manylder gyda'r holl faterion cysylltiol. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi argymell cynnydd o 3.7% yn y Dreth Gyngor ac roedd hynny'n cyfateb i dreth eiddo Band D o £855.90.

Wrth iddo ystyried cyllideb arfaethedig y Pwyllgor Gwaith, fe ddylai'r Cyngor hefyd ystyried a chymryd sylw o adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) gan ei fod yn delio gyda materion statudol a materion eraill yr oedd eu hangen er mwyn cwblhau'r cyngor ar y gyllideb. Bwriad y penderfyniad ar y gyllideb drafft oedd gweithredu cynigion y Pwyllgor Gwaith a rhoi sylw i'r cyngor hwn.

Roedd yr adroddiad a oedd gerbron y Cyngor heddiw yn delio gyda Chadernid yr Amcangyfrifon (Para 2), Digonolrwydd yr Arian Wrth Gefn (Para 3) a'r Côd Pwyllog a Rheoli'r Trysorlys (Para 4).

Roedd y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2011/12 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith wedi'i chynnwys y flwyddyn hon yn Atodiad A i'r adroddiad a chynigiwyd ac eiliwyd bod y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2011/12 yn cael ei derbyn.

Achubodd y Deilydd Portffolio ar y cyfle i ddiolch i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'i staff am eu gwaith yn paratoi'r gyllideb mewn amgylchiadau anodd.

Gofynnodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE iddo gael ei gofnodi bod cyfeiriad wedi'i wneud at gyllido rhai sefydliadau a bod y mater o ddyblygu'n derbyn sylw. Gofynnodd am i'r Cyngor osod safon ddisgwyliedig i'r cyrff hyn er mwyn rheoli materion a sicrhau bod cysondeb mewn perthynas â'r rhai oedd yn elwa.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Cynllunio a'r Amgylchedd y byddai'n darparu ymateb ysgrifenedig i ymholiad y Cynghorydd G. O. Parry yn gofyn a oedd gan y Cyngor hwn bolisi ynglŷn â chael gwared ar fylbiau ynni effeithlon oedd yn cynnwys mercwri.

Gofynnodd y Cynghorydd Aled Morris Jones i'r Cyngor wneud yn siŵr bod yr arian oedd yn cael ei wario gan y Cyngor hwn o dan y gyllideb yn cefnogi busnesau lleol oedd yn talu trethi ar yr Ynys. Roedd yn teimlo y dylai'r Cyngor weithredu'n gadarnhaol o blaid busnesau oedd yn seiliedig ar yr Ynys ac i'r perwyl hwn, gofynnodd am dderbyn adroddiad corfforaethol yn y Cyngor nesaf ar ddyfarnu contractau.

Roedd y Deilydd Portffolio Cyllid am sicrhau'r Cynghorydd Aled Morris Jones y byddai adroddiad yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Mai ar y mater hwnnw.

Dywedodd y Cynghorydd E. Schofield iddo fod yn ymwybodol am nifer o flynyddoedd bod yna lithriadau sylweddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Gofynnodd faint yn union o'r arbedion cyfalaf oedd wedi'u sicrhau trwy beidio â chychwyn rhai cynlluniau, neu trwy lithriadau?

Dywedodd y Deilydd Portffolio (Cyllid) y byddai'n darparu ymateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Schofield ynglŷn â hyn.

Gwnaed sylw y cafwyd trafodaeth dda heddiw ar osod cyllideb y Cyngor a bod yr aelodau wedi gweithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni'r nod hwn. Gofynnwyd i'r Swyddog Cyfathrebu anfon datganiad i'r wasg yn nodi hynny.

Ystyriwyd – y penderfyniad ffurfiol oedd wedi'i nodi yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid).

6.3 Ystyriwyd y diwygiad canlynol i'r Gyllideb a oedd wedi'i roi gerbron gan y Cynghorydd Aled Morris Jones o dan Baragraff 4.3.2.2.6 y Cyfansoddiad ac y rhoddwyd caniatâd i'r Cynghorydd Jones siarad arno:-

Diwygio'r gyllideb gynigiwyd gan y Pwyllgor Gwaith trwy ychwanegu'r canlynol at Gymal 1(g) o'r penderfyniad drafft:-

*"Gofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden fel rhan o'u rhaglen waith ar gyfer 2011, adolygu'r dyraniad yn y gyllideb rhwng sectorau ysgolion gyda chyfeiriad arbennig at Ysgol y Bont, gyda golwg ar weithredu unrhyw newid yng nghyllideb 2012-13, ac yn y cyfamser, y bydd y Cyngor yn trosglwyddo swm o £70k ar sail unwaith yn unig yn 2011-12 o'r arian wrth gefn cyffredinol i Ysgol y Bont, gyda hynny'n yn diwygio Tabl A trwy gynyddu'r cyfraniad o falansau a chyllideb y gwasanaeth addysg gan y swm hwnnw".*

Dywedodd y Cynghorydd Tom Jones, Deilydd Portffolio Cyllid bod y Pwyllgor Gwaith yn barod i dderbyn y diwygiad uchod oedd wedi'i roi ymlaen gan y Cynghorydd Aled Morris Jones.

O dan ddarpariaethau Rheol 18.5 y Cyngor, cafwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar y mater ac roedd y pleidleisio fel a ganlyn:-

**O blaid y gyllideb (yn cynnwys y diwygiad roddwyd ymlaen gan y Cynghorydd Aled Morris Jones): Cynghorwyr**
W. J. Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, C. Ll. Everett, Jim Evans, K. Evans, D. R. Hughes, Ff. M. Hughes, R. Ll. Hughes, T. Ll. Hughes, W. T. Hughes, K. P. Hughes, Aled M Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, G. O. Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, R. Ll. Jones, T. H. Jones, C. McGregor, Rhian Medi, Bryan Owen, J. V. Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, G. W. Roberts OBE, J. Arwel Roberts, P. S. Rogers, H. W. Thomas, E. Schofield, Ieuan Williams, J. P. Williams, Selwyn Williams.

**Cyfanswm: 39**

**Yn erbyn:** Dim.

**Atal:** Dim.

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu'r Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canolig, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol gyda'r eithriad o'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cyllideb refeniw 2011/12 fel y gwelir honno yn Nhabl A.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cynllun a chyllideb cyfalaf fel y gwelir hwnnw yn Nhabl B.

**(ch)** I ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn Nhabl A er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau'r Cyngor ar ailstrwythuro.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2011/12, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

- **(i)** yn amodol ar (d) (ii) a (dd) (i) isod, pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Nhabl A yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;

- **(ii)** pwerau i drosglwyddo symiau rhwng penawdau yn Nhabl A i'r raddau eu bod yn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng arbedion staff amcangyfrifedig a'r rhai gwirioneddol, a'r gost o'u cyflawni;

- **(iii)** pwerau i ddyrannu symiau o'r gyllideb heb ei ddyrannu yn Nhabl A, tra mae'r swm yma'n parhau'n positif wedi cymryd ystyriaeth o'r dyraniadau dan (dd) (i) isod;

**(iv)** pwerau i drosglwyddo o'r gyllideb wrth gefn Perfformiad i bwrpas gwella perfformiad ac i roddi sylw i'r risgiau uchel a nodir yn y Cynllun Gwella ac i weithredu ar gytundebau canlyniad ac i ddarparu systemau fydd yn moderneiddio'r awdurdod ac yn hwyluso'r proses o reoli perfformiad;

**(v)** y pŵer i drosglwyddo o'r Arian Wrth Gefn Gwelliannau Hamdden i bwrpas cefnogi cynigion fydd yn cynnal neu wella'r asedion yn y gwasanaeth hamdden neu yn datblygu cyfleusterau chwaraeon strategol;

**(vi)** pwerau i drosglwyddo o ffynonellau newydd neu gynyddol o incwm.

**(dd)** Dirprwyo i'r Rheolwr Gyfarwyddwr mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy:-

**(i)** y pŵer i addasu cyllidebau'r gwasanaethau yn unrhyw gyfeiriad drwy ddyrannu o'r gyllideb heb ei ddyrannu yn Nhabl A yn gyson â chyflawni prosiectau'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy;

**(ii)** pwerau i ddyrannu symiau o'r gyllideb Buddsoddi mewn Cost Newid tuag at gostau achlysurol prosiectau'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy neu brosiectau cydweithio yng nghysylltiedig ag awdurdodau arall.

**(e)** Am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2014, dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pwerau a ganlyn:-

**(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw blynyddoedd y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canolig;

**(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel a awgrymir yn y Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canolig;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn Nhabl B ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** pennu'r dangosyddion pwyllog sy'n amcangyfrifon am 2011/12 ymlaen fel sy'n ymddangos yn Nhabl C gan gadarnhau'r terfynau ar fenthyca a buddsoddi sydd wedi eu nodi yn eitemau 10,11 a 14 i 17 yn y tabl.

**(ff)** Cadarnhau y bydd eitemau 1 (b) i (f) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**(g)** Gofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden fel rhan o'i raglen waith am 2011 adolygu'r dyraniad cyllidebol rhwng sectorau ysgolion gyda chyfeiriad arbennig at Ysgol y Bont, gyda golwg ar weithredu unrhyw newid yng nghyllideb 2012-13, ac yn y cyfamser y bydd y Cyngor yn trosglwyddo'r swm o £70k ar sail unwaith yn unig yn 2011-12 o'r arian wrth gefn cyffredinol i Ysgol y Bont, gyda hynny'n diwygio Tabl A trwy gynyddu'r cyfraniad o'r balansau a chyllideb y gwasanaeth addysg gan y swm hwnnw.

2. **PENDERFYNWYD**

Gydag effaith o 1 Ebrill 2011, dylid diwygio cyfraddau lwfansau aelodau, yn Atodiad i Rhan 6 o'r Cyfansoddiad, fel y ganlyn:-

| | **I DDECHRAU O 1 EBRILL 2011** |
|---|---|
| **Lwfans Sylfaenol** | £11,664 |
| **Lwfans Cadeirydd y Cyngor** | £ 6,453 |
| **Lwfans Is-Gadeirydd y Cyngor** | £ 4,608 |
| | |
| **Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig:** | |
| Arweinydd y Cyngor | £24,912 |
| Is-Arweinydd y Cyngor | £13,701 |
| Aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwaith | £12,454 |
| Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini a Phwyllgor Trosolwg Polisi | £ 7,473 |
| Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £ 7,473 |
| Arweinydd Grŵp y Prif Wrthblaid | £ 7,473 |
| Cadeirydd Pwyllgor Archwilio | £ 7,473 |
| | |
| **Lwfans Gofal (os yn daladwy)** | £ 4,353 |

3. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2011/12 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:-

Dosbarth Penodedig A Dim Disgownt
Dosbarth Penodedig B Dim Disgownt

4. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2011/12, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n briodol i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004, fel a ganlyn:-

Dosbarth Penodedig C Dim Disgownt

5. Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin y costau a dreulir gan y Cyngor yn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw gais neu gais arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael eu diddymu'n benodol.

**6.** Y dylid nodi i'r Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2010 bennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2011/12 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** 29,768.15 yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol â rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995, yn sail y Dreth Gyngor am y flwyddyn.

**b)** **Rhan o Ardal y Cyngor**

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,407.54 |
| Biwmares | 1,040.71 |
| Caergybi | 3,663.30 |
| Llangefni | 1,820.64 |
| Porthaethwy | 1,379.25 |
| Llanddanielfab | 348.39 |
| Llanddona | 348.13 |
| Cwm Cadnant | 1,133.20 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,280.67 |
| Llanfihangel Esceifiog | 612.99 |
| Bodorgan | 423.38 |
| Llangoed | 606.09 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 568.42 |
| Llanidan | 388.26 |
| Rhosyr | 956.84 |
| Penmynydd | 178.78 |
| Pentraeth | 494.57 |
| Moelfre | 596.86 |
| Llanbadrig | 629.77 |
| Llanddyfnan | 454.31 |
| Llaneilian | 519.10 |
| Llannerch-y-medd | 485.03 |
| Llaneugrad | 176.91 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,725.46 |
| Cylch y Garn | 374.77 |
| Mechell | 523.57 |
| Rhos-y-bol | 440.40 |
| Aberffraw | 277.47 |
| Bodedern | 395.55 |
| Bodffordd | 400.42 |
| Trearddur | 1,186.16 |
| Tref Alaw | 241.32 |
| Llanfachraeth | 219.26 |
| Llanfaelog | 1,141.47 |
| Llanfaethlu | 266.74 |
| Llanfair-yn-neubwll | 570.88 |
| Y Fali | 943.25 |
| Bryngwran | 331.21 |
| Rhoscolyn | 338.45 |
| Trewalchmai | 346.13 |

sef y symiau a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol â rheoliad 6 y Rheoliadau, yn symiau sail y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**7.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2011/12 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

| | | |
|---|---|---|
| **a)** | £177,304,381 | sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf. |
| **b)** | £ 57,556,310 | sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) ac (c) y Ddeddf. |
| **c)** | £119,748,071 | sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 7(a) uchod a chyfanswm 7(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn. |
| **ch)** | £ 93,401,218 | sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i gronfa'r cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, a grant cynnal refeniw gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3B) y Ddeddf. |
| **d)** | £ 885.07 | sef y swm yn 7(c) uchod llai'r swm yn 7(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 6(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn. |
| **dd)** | £ 868,292.89 | sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf. |
| **e)** | £ 855.90 | sef y swm yn 7(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 7(dd) uchod â'r swm yn 6(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34 (2) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol. |

f) **Rhan o Ardal y Cyngor**

| Rhan o Ardal y Cyngor | | D |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 907.89 |
| Biwmares | £ | 881.03 |
| Caergybi | £ | 924.31 |
| Llangefni | £ | 909.43 |
| Porthaethwy | £ | 902.69 |
| Llanddanielfab | £ | 871.87 |
| Llanddona | £ | 870.09 |
| Cwm Cadnant | £ | 881.61 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 879.69 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 873.83 |
| Bodorgan | £ | 872.21 |
| Llangoed | £ | 870.69 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 862.94 |
| Llanidan | £ | 875.00 |
| Rhosyr | £ | 872.67 |
| Penmynydd | £ | 863.11 |
| Pentraeth | £ | 879.16 |
| Moelfre | £ | 872.40 |
| Llanbadrig | £ | 864.93 |
| Llanddyfnan | £ | 870.21 |
| Llaneilian | £ | 869.10 |
| Llannerch-y-medd | £ | 866.24 |
| Llaneugrad | £ | 872.04 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 882.01 |
| Cylch y Garn | £ | 867.22 |
| Mechell | £ | 868.68 |
| Rhos-y-bol | £ | 869.12 |
| Aberffraw | £ | 877.22 |
| Bodedern | £ | 870.53 |
| Bodffordd | £ | 868.28 |
| Trearddur | £ | 871.86 |
| Tref Alaw | £ | 870.69 |
| Llanfachraeth | £ | 874.30 |
| Llanfaelog | £ | 871.99 |
| Llanfaethlu | £ | 868.10 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 870.08 |
| Y Fali | £ | 873.80 |
| Bryngwran | £ | 876.32 |
| Rhoscolyn | £ | 863.22 |
| Trewalchmai | £ | 871.73 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 7(e) uchod symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 6(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**Bandiau Prisiau**

**ff)**

| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 605.26 | 706.14 | 807.02 | 907.89 | 1,109.65 | 1,311.40 | 1,513.16 | 1,815.79 | 2,118.42 |
| Biwmares | £ | 587.35 | 685.24 | 783.13 | 881.03 | 1,076.81 | 1,272.59 | 1,468.38 | 1,762.05 | 2,055.73 |
| Caergybi | £ | 616.21 | 718.91 | 821.61 | 924.31 | 1,129.71 | 1,335.11 | 1,540.51 | 1,848.62 | 2,156.72 |
| Llangefni | £ | 606.29 | 707.33 | 808.38 | 909.43 | 1,111.53 | 1,313.62 | 1,515.72 | 1,818.86 | 2,122.00 |
| Porthaethwy | £ | 601.79 | 702.09 | 802.39 | 902.69 | 1,103.28 | 1,303.88 | 1,504.48 | 1,805.37 | 2,106.27 |
| Llanddaniel-fab | £ | 581.25 | 678.12 | 775.00 | 871.87 | 1,065.62 | 1,259.37 | 1,453.12 | 1,743.74 | 2,034.37 |
| Llanddona | £ | 580.06 | 676.74 | 773.42 | 870.09 | 1,063.45 | 1,256.80 | 1,450.16 | 1,740.19 | 2,030.22 |
| Cwm Cadnant | £ | 587.74 | 685.70 | 783.65 | 881.61 | 1,077.53 | 1,273.44 | 1,469.35 | 1,763.22 | 2,057.09 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 586.46 | 684.21 | 781.95 | 879.69 | 1,075.18 | 1,270.67 | 1,466.16 | 1,759.39 | 2,052.62 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 582.55 | 679.65 | 776.74 | 873.83 | 1,068.02 | 1,262.20 | 1,456.38 | 1,747.66 | 2,038.94 |
| Bodorgan | £ | 581.48 | 678.39 | 775.30 | 872.21 | 1,066.04 | 1,259.86 | 1,453.69 | 1,744.43 | 2,035.16 |
| Llangoed | £ | 580.46 | 677.21 | 773.95 | 870.69 | 1,064.18 | 1,257.67 | 1,451.16 | 1,741.39 | 2,031.62 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 575.29 | 671.18 | 767.06 | 862.94 | 1,054.70 | 1,246.47 | 1,438.23 | 1,725.88 | 2,013.53 |
| Llanidan | £ | 583.33 | 680.56 | 777.78 | 875.00 | 1,069.45 | 1,263.89 | 1,458.34 | 1,750.00 | 2,041.67 |
| Rhosyr | £ | 581.78 | 678.75 | 775.71 | 872.67 | 1,066.60 | 1,260.53 | 1,454.46 | 1,745.35 | 2,036.24 |
| Penmynydd | £ | 575.40 | 671.30 | 767.20 | 863.11 | 1,054.91 | 1,246.71 | 1,438.51 | 1,726.21 | 2,013.91 |
| Pentraeth | £ | 586.10 | 683.79 | 781.47 | 879.16 | 1,074.52 | 1,269.89 | 1,465.26 | 1,758.31 | 2,051.36 |
| Moelfre | £ | 581.60 | 678.53 | 775.47 | 872.40 | 1,066.27 | 1,260.13 | 1,454.00 | 1,744.80 | 2,035.60 |
| Llanbadrig | £ | 576.62 | 672.72 | 768.82 | 864.93 | 1,057.13 | 1,249.34 | 1,441.54 | 1,729.85 | 2,018.16 |
| Llanddyfnan | £ | 580.14 | 676.83 | 773.52 | 870.21 | 1,063.59 | 1,256.97 | 1,450.35 | 1,740.42 | 2,030.49 |
| Llaneilian | £ | 579.40 | 675.97 | 772.53 | 869.10 | 1,062.23 | 1,255.37 | 1,448.50 | 1,738.20 | 2,027.90 |
| Llannerch-y-medd | £ | 577.49 | 673.74 | 769.99 | 866.24 | 1,058.74 | 1,251.24 | 1,443.73 | 1,732.48 | 2,021.23 |
| Llaneugrad | £ | 581.36 | 678.25 | 775.14 | 872.04 | 1,065.82 | 1,259.61 | 1,453.39 | 1,744.07 | 2,034.75 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 588.01 | 686.01 | 784.01 | 882.01 | 1,078.01 | 1,274.01 | 1,470.02 | 1,764.02 | 2,058.02 |
| Cylch y Garn | £ | 578.14 | 674.50 | 770.86 | 867.22 | 1,059.93 | 1,252.65 | 1,445.36 | 1,734.43 | 2,023.51 |
| Mechell | £ | 579.12 | 675.64 | 772.16 | 868.68 | 1,061.72 | 1,254.75 | 1,447.79 | 1,737.35 | 2,026.91 |
| Rhos-y-bol | £ | 579.41 | 675.98 | 772.55 | 869.12 | 1,062.26 | 1,255.40 | 1,448.54 | 1,738.24 | 2,027.95 |
| Aberffraw | £ | 584.81 | 682.28 | 779.75 | 877.22 | 1,072.16 | 1,267.10 | 1,462.04 | 1,754.44 | 2,046.85 |
| Bodedern | £ | 580.35 | 677.08 | 773.80 | 870.53 | 1,063.98 | 1,257.43 | 1,450.88 | 1,741.06 | 2,031.24 |
| Bodffordd | £ | 578.85 | 675.33 | 771.80 | 868.28 | 1,061.23 | 1,254.18 | 1,447.13 | 1,736.55 | 2,025.98 |
| Trearddur | £ | 581.24 | 678.11 | 774.99 | 871.86 | 1,065.61 | 1,259.36 | 1,453.10 | 1,743.72 | 2,034.34 |
| Tref Alaw | £ | 580.46 | 677.20 | 773.94 | 870.69 | 1,064.17 | 1,257.66 | 1,451.14 | 1,741.37 | 2,031.60 |
| Llanfachraeth | £ | 582.87 | 680.01 | 777.16 | 874.30 | 1,068.59 | 1,262.88 | 1,457.17 | 1,748.60 | 2,040.03 |
| Llanfaelog | £ | 581.32 | 678.21 | 775.10 | 871.99 | 1,065.76 | 1,259.54 | 1,453.31 | 1,743.97 | 2,034.63 |
| Llanfaethlu | £ | 578.73 | 675.19 | 771.64 | 868.10 | 1,061.01 | 1,253.92 | 1,446.83 | 1,736.20 | 2,025.56 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 580.05 | 676.73 | 773.41 | 870.08 | 1,063.43 | 1,256.79 | 1,450.14 | 1,740.16 | 2,030.19 |
| Y Fali | £ | 582.53 | 679.62 | 776.71 | 873.80 | 1,067.98 | 1,262.16 | 1,456.33 | 1,747.60 | 2,038.87 |
| Bryngwran | £ | 584.21 | 681.58 | 778.95 | 876.32 | 1,071.06 | 1,265.79 | 1,460.53 | 1,752.64 | 2,044.74 |
| Rhoscolyn | £ | 575.48 | 671.39 | 767.30 | 863.22 | 1,055.04 | 1,246.87 | 1,438.69 | 1,726.43 | 2,014.17 |
| Trewalchmai | £ | 581.15 | 678.01 | 774.87 | 871.73 | 1,065.45 | 1,259.16 | 1,452.88 | 1,743.46 | 2,034.03 |

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 7(e) a 7(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu a'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y

Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

**8.** Y dylid nodi ar gyfer y flwyddyn 2011/12 fod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:-

| **Awdurdod Praeseptio** | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 139.56 | 162.82 | 186.08 | 209.34 | 255.86 | 302.38 | 348.90 | 418.68 | 488.46 |

**9.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 7(ff) a 8 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn, yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor yn y flwyddyn 2011/12 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir isod:-

| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Amlwch | £ | 744.82 | 868.96 | 993.10 | 1,117.23 | 1,365.51 | 1,613.78 | 1,862.06 | 2,234.47 | 2,606.88 |
| Biwmares | £ | 726.91 | 848.06 | 969.21 | 1,090.37 | 1,332.67 | 1,574.97 | 1,817.28 | 2,180.73 | 2,544.19 |
| Caergybi | £ | 755.77 | 881.73 | 1,007.69 | 1,133.65 | 1,385.57 | 1,637.49 | 1,889.41 | 2,267.30 | 2,645.18 |
| Llangefni | £ | 745.85 | 870.15 | 994.46 | 1,118.77 | 1,367.39 | 1,616.00 | 1,864.62 | 2,237.54 | 2,610.46 |
| Porthaethwy | £ | 741.35 | 864.91 | 988.47 | 1,112.03 | 1,359.14 | 1,606.26 | 1,853.38 | 2,224.05 | 2,594.73 |
| Llanddaniel-fab | £ | 720.81 | 840.94 | 961.08 | 1,081.21 | 1,321.48 | 1,561.75 | 1,802.02 | 2,162.42 | 2,522.83 |
| Llanddona | £ | 719.62 | 839.56 | 959.50 | 1,079.43 | 1,319.31 | 1,559.18 | 1,799.06 | 2,158.87 | 2,518.68 |
| Cwm Cadnant | £ | 727.30 | 848.52 | 969.73 | 1,090.95 | 1,333.39 | 1,575.82 | 1,818.25 | 2,181.90 | 2,545.55 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 726.02 | 847.03 | 968.03 | 1,089.03 | 1,331.04 | 1,573.05 | 1,815.06 | 2,178.07 | 2,541.08 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 722.11 | 842.47 | 962.82 | 1,083.17 | 1,323.88 | 1,564.58 | 1,805.28 | 2,166.34 | 2,527.40 |
| Bodorgan | £ | 721.04 | 841.21 | 961.38 | 1,081.55 | 1,321.90 | 1,562.24 | 1,802.59 | 2,163.11 | 2,523.62 |
| Llangoed | £ | 720.02 | 840.03 | 960.03 | 1,080.03 | 1,320.04 | 1,560.05 | 1,800.06 | 2,160.07 | 2,520.08 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 714.85 | 834.00 | 953.14 | 1,072.28 | 1,310.56 | 1,548.85 | 1,787.13 | 2,144.56 | 2,501.99 |
| Llanidan | £ | 722.89 | 843.38 | 963.86 | 1,084.34 | 1,325.31 | 1,566.27 | 1,807.24 | 2,168.68 | 2,530.13 |
| Rhosyr | £ | 721.34 | 841.57 | 961.79 | 1,082.01 | 1,322.46 | 1,562.91 | 1,803.36 | 2,164.03 | 2,524.70 |
| Penmynydd | £ | 714.96 | 834.12 | 953.28 | 1,072.45 | 1,310.77 | 1,549.09 | 1,787.41 | 2,144.89 | 2,502.37 |
| Pentraeth | £ | 725.66 | 846.61 | 967.55 | 1,088.50 | 1,330.38 | 1,572.27 | 1,814.16 | 2,176.99 | 2,539.82 |
| Moelfre | £ | 721.16 | 841.35 | 961.55 | 1,081.74 | 1,322.13 | 1,562.51 | 1,802.90 | 2,163.48 | 2,524.06 |
| Llanbadrig | £ | 716.18 | 835.54 | 954.90 | 1,074.27 | 1,312.99 | 1,551.72 | 1,790.44 | 2,148.53 | 2,506.62 |
| Llanddyfnan | £ | 719.70 | 839.65 | 959.60 | 1,079.55 | 1,319.45 | 1,559.35 | 1,799.25 | 2,159.10 | 2,518.95 |
| Llaneilian | £ | 718.96 | 838.79 | 958.61 | 1,078.44 | 1,318.09 | 1,557.75 | 1,797.40 | 2,156.88 | 2,516.36 |
| Llannerch-y-medd | £ | 717.05 | 836.56 | 956.07 | 1,075.58 | 1,314.60 | 1,553.62 | 1,792.63 | 2,151.16 | 2,509.69 |
| Llaneugrad | £ | 720.92 | 841.07 | 961.22 | 1,081.38 | 1,321.68 | 1,561.99 | 1,802.29 | 2,162.75 | 2,523.21 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 727.57 | 848.83 | 970.09 | 1,091.35 | 1,333.87 | 1,576.39 | 1,818.92 | 2,182.70 | 2,546.48 |
| Cylch y Garn | £ | 717.70 | 837.32 | 956.94 | 1,076.56 | 1,315.79 | 1,555.03 | 1,794.26 | 2,153.11 | 2,511.97 |
| Mechell | £ | 718.68 | 838.46 | 958.24 | 1,078.02 | 1,317.58 | 1,557.13 | 1,796.69 | 2,156.03 | 2,515.37 |
| Rhos-y-bol | £ | 718.97 | 838.80 | 958.63 | 1,078.46 | 1,318.12 | 1,557.78 | 1,797.44 | 2,156.92 | 2,516.41 |
| Aberffraw | £ | 724.37 | 845.10 | 965.83 | 1,086.56 | 1,328.02 | 1,569.48 | 1,810.94 | 2,173.12 | 2,535.31 |
| Bodedern | £ | 719.91 | 839.90 | 959.88 | 1,079.87 | 1,319.84 | 1,559.81 | 1,799.78 | 2,159.74 | 2,519.70 |
| Bodffordd | £ | 718.41 | 838.15 | 957.88 | 1,077.62 | 1,317.09 | 1,556.56 | 1,796.03 | 2,155.23 | 2,514.44 |
| Trearddur | £ | 720.80 | 840.93 | 961.07 | 1,081.20 | 1,321.47 | 1,561.74 | 1,802.00 | 2,162.40 | 2,522.80 |
| Tref Alaw | £ | 720.02 | 840.02 | 960.02 | 1,080.03 | 1,320.03 | 1,560.04 | 1,800.04 | 2,160.05 | 2,520.06 |
| Llanfachraeth | £ | 722.43 | 842.83 | 963.24 | 1,083.64 | 1,324.45 | 1,565.26 | 1,806.07 | 2,167.28 | 2,528.49 |
| Llanfaelog | £ | 720.88 | 841.03 | 961.18 | 1,081.33 | 1,321.62 | 1,561.92 | 1,802.21 | 2,162.65 | 2,523.09 |
| Llanfaethlu | £ | 718.29 | 838.01 | 957.72 | 1,077.44 | 1,316.87 | 1,556.30 | 1,795.73 | 2,154.88 | 2,514.02 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 719.61 | 839.55 | 959.49 | 1,079.42 | 1,319.29 | 1,559.17 | 1,799.04 | 2,158.84 | 2,518.65 |

**Bandiau Prisiau**

| Rhan o Ardal y Cyngor | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Fali | £ | 722.09 | 842.44 | 962.79 | 1,083.14 | 1,323.84 | 1,564.54 | 1,805.23 | 2,166.28 | 2,527.33 |
| Bryngwran | £ | 723.77 | 844.40 | 965.03 | 1,085.66 | 1,326.92 | 1,568.17 | 1,809.43 | 2,171.32 | 2,533.20 |
| Rhoscolyn | £ | 715.04 | 834.21 | 953.38 | 1,072.56 | 1,310.90 | 1,549.25 | 1,787.59 | 2,145.11 | 2,502.63 |
| Trewalchmai | £ | 720.71 | 840.83 | 960.95 | 1,081.07 | 1,321.31 | 1,561.54 | 1,801.78 | 2,162.14 | 2,522.49 |

## 7 GRŴP LLYWIO ADFERIAD

Adroddwyd gan Is-Gadeirydd y Cyngor Sir - ar 14 Medi 2010, cymeradwyodd y Cyngor ei Raglen Adfer a sefydlodd Grŵp Llywio Adferiad (GLIA) i oruchwylio cynnydd ac adrodd yn ôl i bob cyfarfod cyffredin o'r Cyngor hyd nes y byddai ymyrraeth y Gweinidog wedi dod i ben.

Roedd y GLIA wedi cyfarfod ar bedwar achlysur ac wedi nodi naw o faterion, ac yr oedd sicrhau cynnydd boddhaol gyda'r rhain yn hanfodol er mwyn sicrhau adferiad cynaliadwy a thymor hir. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, roedd y GLIA wedi cytuno y byddai'n gwahodd cyflwyniadau gan bob un o'r Deilyddion Portffolio perthnasol, i roi diweddariad i'r GLIA o bob maes yn ei dro. Pwrpas y cyflwyniadau oedd helpu i'r GLIA asesu'r man cychwyn, y cynnydd hyd yn hyn, y datblygiadau a fwriedir yn y dyfodol, yr amserlen a'r adnoddau gyda golwg ar sefydlu disgwyliadau/anghenion y GLIA ynglŷn ag adrodd yn ôl a monitro yn y dyfodol.

Ar 17 Chwefror 2011, roedd cyfarfod diwethaf y GLIA wedi rhoi sylw i'r materion isod:-

- Y Datganiad gan y Gweinidog ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ddyddiedig 17 Chwefror 2011
- Newidiadau Cyfansoddiadol drafft Rhannau 1 a 2
- Cynnydd ar faterion Cynllunio

Roedd cyfarfod pellach wedi'i drefnu ar gyfer 17 Mawrth 2011 pryd y byddid yn ystyried:-

- Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Adnoddau Dynol - gan ganolbwyntio'n benodol ar gaffael TGCh, a
- Newidiadau Cyfansoddiadol drafft - Rhannau 3 a 4

**PENDERFYNWYD - gan gydnabod bod materion ar hyn o bryd ynghylch agweddau gwleidyddol yr adferiad, dylid derbyn casgliadau cyfredol y GLIA, sef bod cynnydd yn erbyn y rhaglen adfer yn gyffredinol yn parhau i fod yn foddhaol, ond gyda'r cafeat bod y Cyngor yn disgwyl am ganfyddiadau adroddiad Archwilio Llywodraethu Corfforaethol pellach ac unrhyw benderfyniadau fyddai'n dilyn gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.**

## 8 PROTOCOLAU RHEOLAETH WLEIDYDDOL

Adroddwyd - bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror 2011 wedi penderfynu argymell fel a ganlyn i'r Cyngor Sir:-

*"Y dylai Cadeirydd y Cyngor Sir fod â rhan yn 2.1.6 ac/neu 4.1.6 y protocolau;*

*Mabwysiadu'r protocolau fel y cawsant eu drafftio yn Atodiad A a'u hymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn 5.8;*

*Awdurdodi Swyddogion i wneud yr holl newidiadau angenrheidiol a chanlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor gan gynnwys ymgorffori'r protocolau yn 5.8."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith.**

**9.2 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD- PROTOCOL GWYBODAETH I AELODAU**

Dweud bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 23 Chwefror 2011 ar ôl ystyried yr uchod wedi penderfynu argymell fel a ganlyn i'r Cyngor Sir:-

*"Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r drafft o'r Protocol Gwybodaeth i Aelodau ac yn diwygio'r Cyfansoddiad yn Adrannau 5.3.6 a 5.3.8 yn unol â hynny."*

Roedd y Cynghorydd Jim Evans yn dymuno iddo gael ei nodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y penderfyniad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith.**

**10 POLISI'R AWDURDOD LLEOL MEWN PERTHYNAS Â'R SWYDDFA COFNODIADAU TROSEDDOL**

Cafwyd adroddiad gan yr Uchel Gyfreithiwr (yn cynghori'r Gwasanaethau Plant) – Bod y Polisi drafft yn rheoli'r gwaith o gasglu a storio gwybodaeth Swyddfa Cofnodiadau Troseddol ar gyfer staff parhaol a dros dro, contractwyr annibynnol, aelodau etholedig/a gyfetholwyd a gwirfoddolwyr.

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod y rhai sydd yn darparu gwasanaethau i bobl fregus a phlant yn addas i wneud hynny. Roedd y Cyngor wedi cofrestru gyda'r Swyddfa Cofnodiadau Troseddol a rhaid iddo yn unol â'r gyfraith wneud gwaith gwirio ar gyfer y swyddi lle ceir cyswllt uniongyrchol nad yw'n cael ei arolygu, gyda phobl fregus a phlant.

Roedd y Polisi yn cynnig y dylai Aelodau fod yn destun gwaith gwirio ehangach cyn y gallent gyflawni rhai dyletswyddau (e.e. gwasanaethu ar Bwyllgorau Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol neu Addysg) a chynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol perthnasol (e.e. fel Llywodraethwr Ysgol).

Roedd yr Arweinyddion Grwpiau, holl aelodau'r Cyngor, y Pwyllgor Safonau a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol perthnasol i gyd wedi ymateb i'r broses ymgynghori ynglŷn â'r Polisi drafft. Roedd dau gynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi ymweld â'r Cyngor ac wedi cymeradwyo'r Polisi drafft, yn arbennig y drefn ar gyfer cadw a phrosesu gwybodaeth gyfrinachol.

Mynegodd rhai o'r Aelodau eu dymuniad i'r mater gael ei ohirio ac y dylid gwahodd y Comisiynydd Gwybodaeth yma i egluro goblygiadau Polisi'r Swyddfa Cofnodiadau Troseddol iddynt. Soniwyd am gostau ychwanegol y gwaith gwirio ac eglurwyd bod y Polisi yn caniatáu i'r Cyngor dderbyn rhai gwiriadau SCT oedd eisoes yn bodoli er mwyn osgoi dyblygu'r gwaith. Eglurwyd ymhellach – pe bai asesiad risg yn nodi bod unrhyw swydd angen gwiriad SCT, yna ni fyddai wahaniaeth a fyddai'r swydd yn cael ei gwneud gan staff neu gontractwr annibynnol oherwydd byddai angen yr un lefel o sicrwydd SCT. Mynegwyd consyrn hefyd y byddai cwblhau'r asesiadau risg yn creu lefel arall o fiwrocratiaeth i gontractwyr annibynnol a mathau eraill o weithwyr asiantaeth oedd yn gwneud gwaith ar ran yr Awdurdod Lleol. Roedd yn cael ei gydnabod bod y gyfraith mewn perthynas â gwaith gwirio SCT yn cael ei hadolygu, yn arbennig o safbwynt gwirfoddolwyr, ond roedd y Polisi yn nodi gofynion y Cyngor yn ôl y gyfraith fel y mae ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen adolygu'r Polisi yng ngoleuni unrhyw newid yn y gyfraith ddaw trwy'r 'Mesur Rhyddid'.

(Roedd y Cynghorwyr Aled Morris Jones a K. P. Hughes yn dymuno iddo gael ei gofnodi nad oedd y Cadeirydd wedi rhoi cyfle iddynt siarad ar y mater hwn).

(Roedd y Cynghorydd R. Ll. Hughes, Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, yn dymuno iddo gael ei gofnodi bod y penderfyniad wnaed heddiw yn creu risg sylweddol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac i Addysg yn arbennig).

(Roedd y Cynghorydd Aled Morris Jones hefyd yn dymuno iddo gael ei gofnodi bod y Cadeirydd wedi caniatáu i'r Cynghorydd R. L. Hughes siarad ar y mater ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud).

**PENDERFYNWYD gohirio unrhyw ystyriaeth ar y pwnc a bod gwahoddiad yn cael ei anfon i'r Comisiynydd Gwybodaeth i ddod i siarad gerbron y Cyngor yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mai.**

## 11 STRATEGAETH IECHYD GOFAL CYMDEITHASOL A LLES YNYS MÔN 2011-2014

Cyflwynwyd – Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r strategaeth uchod am gyfnod o 3 blynedd hyd 31 Mawrth 2014 gydag adolygiadau blynyddol.

(Roedd y Cynghorydd Aled Morris Jones yn dymuno iddo gael ei gofnodi unwaith yn rhagor nad oedd y Cadeirydd wedi rhoi cyfle iddo siarad ar y mater).

**PENDERFYNWYD**

- **Mabwysiadu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles am 2011/2014 i'w gweithredu ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am gyfnod o 3 blynedd o 1 Ebrill 2011.**

- **Awdurdodi'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles fonitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y Strategaeth hon yn ystod y cyfnod gweithredol nesaf o 3 blynedd hyd ddiwedd Mawrth 2014.**

## 12 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD Cymru

Cyflwynwyd - adroddiad llafar gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, un o gynrychiolwyr y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod rhwng 1 Rhagfyr 2010 a 28 Chwefror 2011.

Adroddwyd - Bod yna gyllideb sefydlog o £32m yn ei lle am y 3 blynedd nesaf. Byddai'n rhaid canfod arbedion o £2.4m dros gyfnod tebyg o amser. Roedd yr Awdurdod yn gwneud ei orau i gyflawni hynny a hefyd i gadw Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw ynddo. Crybwyllodd y dylid ymestyn llongyfarchiadau i Ann Jones AC, oedd wedi mynd â mesur peilot trwy Gynulliad Cymru i sicrhau y byddai'n rhaid gosod offer tasgu dŵr mewn tai newydd o hyn allan. Roedd hyn yn esiampl o Orchymyn Cymhwysedd yn cael ei ddefnyddio i
sicrhau bod deddfwriaeth yn dod i rym a bod hyn wedi cymryd 3 blynedd i'w gyflawni.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ac y dylid gofyn i'r Arweinydd ysgrifennu at Ann Jones AC yn mynegi llongyfarchiadau a diolchiadau'r Cyngor hwn.**

**13 AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD Cymru**

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan y Cynghorydd P. S. Rogers, cynrychiolydd y Cyngor ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, am gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Rhagfyr 2010 a 28 Chwefror 2011.

Adroddwyd - dros y 3 mis diwethaf roedd yr Awdurdod Heddlu wedi treulio'i amser yn penderfynu ar y gyllideb a'r praeset oedd i'w osod. Cafwyd cytundeb ar y ffigwr o 4% ac roedd trafodaethau helaeth wedi'u cynnal ynglŷn â newid y dull plismona trwy Ogledd Cymru i adlewyrchu hyn. Cyfeiriodd at greu'r hybiau agored ar draws Gogledd Cymru, gydag un ohonynt i'w sefydlu yn Llangefni a hefyd y cynllun peilot sy'n cael ei redeg ar yr Ynys yng nghyswllt cyfarfodydd cyswllt cymunedol.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

**14 CYNIGION A DDERBYNIWYD YN UNOL Â 4.1.2.2.12 Y CYFANSODDIAD**

(a) Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynigiad Isod gan y Cynghorydd P. S. Rogers:-

*"Bod y Cyngor yn rhoddi'r Gorchymyn o'r neilltu a ddim yn ceisio adennill costau o £4,750.00 yn dilyn y cais am Adolygiad Barnwrol ym mis Mai 2010 gan Grŵp Gweithredu Cymunedol Bodffordd."*

Dywedodd y Cynghorydd Rogers mai'r rheswm y tu ôl i'r cynigiad hwn oedd ei fod yn edmygu'r hyn yr oedd y gymuned wedi'i wneud yn gwrthwynebu cais cynllunio dadleuol.

Cafwyd cyngor cyfreithiol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro.

Ni chafodd y cynigiad ei eilio ac felly roedd yn disgyn.

(b) Cyflwynwyd – y Rhybuddion o Gynigiad isod gan y Cynghorydd Aled Morris Jones:-

*"Bod y Cyngor yn penderfynu y dylai'r Rheolwr-gyfarwyddwr fynd ati ar unwaith i gynllunio a pharatoi ymlaen llaw ar gyfer cynnal Diwrnod y Lluoedd Arfog 2012. Bydd hyn yn dilyn o'r diwrnod llwyddiannus i'r Lluoedd Arfog a gynhaliwyd yn 2009 a 2010. Mae'r achlysuron hyn yn dangos ymrwymiad Cyngor Sir Ynys Môn i anrhydeddu'r swyddogaeth bwysig a chwaraeir gan ein Lluoedd Arfog".*

**PENDERFYNWYD – tra bod y Cyngor yn gwerthfawrogi'r cyfraniad clodwiw wneir gan aelodau'r Lluoedd Arfog yn fyd-eang ar ein rhan a chan nodi angen y cyhoedd i gydnabod ymrwymiad ein Milwyr, Morwyr ac aelodau'r Awyrlu, byddai cynnal Diwrnod Lluoedd Arfog ym mhob ardal Awdurdod Lleol yn dreth fawr ar y Lluoedd Arfog eu hunain ac ar gyllid yr Awdurdod Lleol.**

**Mae'r Cyngor, felly, yn gofyn i'r Rheolwr-gyfarwyddwr godi'r mater o gynnal Diwrnod Rhanbarthol y Lluoedd Arfog gyda'i gydweithwyr yn Awdurdodau Gogledd Cymru a bod pob awdurdod yn ei dro yn cynnal Diwrnod y Lluoedd Arfog. Byddai hyn yn gostwng ymrwymiadau'r Lluoedd Arfog Prydeinig i gymryd rhan mewn chwe digwyddiad gwahanol, yn gostwng gofynion cyllidebol yr Awdurdod i gynnal digwyddiadau blynyddol ym mhob ardal Cyngor a byddai'n llawer mwy tebygol o ddenu cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i dalu am ddigwyddiad o'r fath.**

*(ii) Bod y Cyngor yn penderfynu y dylai'r Rheolwr-gyfarwyddwr gychwyn ar broses o ymgynghori gyda'r partïon perthnasol ar ganiatáu Rhyddid Sir Ynys Môn i'r Gatrawd Frenhinol Gymreig. Mae hyn i gydnabod eu gwasanaeth i'r genedl."*

**PENDERFYNWYD cytuno i weithredu yn y dull hwnnw.**

**15 DIRPRWYIADAU GAN YR ARWEINYDD**

Adroddwyd er gwybodaeth gan y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro - adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau i'r cynllun dirprwyo wnaed gan yr Arweinydd ers y cyfarfod arferol diwethaf mewn perthynas â swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith (cyfeirir at hyn yn Rheol 4.4.1.4 Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith).

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Daeth y cyfarfod i ben am 1:35pm

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**